# Canllaw Rheoli Perfformiad: Rheoli Risg Er Mwyn Darparu Gwasanaethau Gwell

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canllaw a pholisi rheoli perfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer rheoli perfformiad cyson ar draws gwasanaethau'r cyngor.  Mae’n offeryn i unrhyw un sy’n gweithio yn y cyngor, yn ogystal a chanllaw i’r rhai sy’n derbyn ein gwasanaethau.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English. Rydym yn fwy na bodlon darparu’r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a Braille. Cysylltwch â’r Tîm Perfformiad a Gwella am ragor o wybodaeth.**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Mae arnom eisiau clywed eich barn!

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed llais pawb a'u cydnabod. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch. A yw ein nodau hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned, ac a ydym yn gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni gan ddefnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion, drwy Wasanaeth InterpretersLive! y mae Sign Solutions yn ei ddarparu – ewch i www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Sign

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y naill iaith na'r llall.

## Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw ein dyfodol a hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid, neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh. Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar-lein.

Hoffwch ni ar Facebook.

Ewch ar ein gwefan i gael gwybod am wasanaethau, yn cynnwys i weld ein Cynllun Corfforaethol ac adroddiadau perfformiad.

Ewch i'n tudalen we 'Dweud eich dweud'

# Cynnwys

1.0. Beth yw Rheoli Perfformiad? ........................................................................................5

2.0. Sut ydym ni'n adrodd ar ein perfformiad? ....................................................................9

3.0. Sut ydym ni'n mesur perfformiad? .............................................................................15

4.0. Sut ydym yn herio ein gwasanaethau i wella? ............................................................18

5.0. Sut ydym ni'n rheoli ein risgiau a'n problemau? ..........................................................19

6.0. Sut ydym ni'n rheoli rhaglenni a phrosiectau?.............................................................19

7.0. Beth am archwiliadau ac arolygiadau? .......................................................................20

8.0. Sut ydym ni'n rheoli ein hadnoddau? .........................................................................21

9.0. Rhywbeth i Bawb: Deall Eich Rôl wrth Reoli Perfformiad! ..........................................23

10.0. Geirfa .........................................................................................................................35

Atodiad 1 - Fframwaith Hunanasesu Perfformiad .............................................................42

Atodiad 2 – Templed Cynllunio Gwasanaeth .....................................................................43

Atodiad 3 – Templed Dangosydd / Mesur Perfformiad .....................................................45

Atodiad 4 - Egwyddorion ar gyfer Ysgrifennu Adroddiadau Perfformiad ............................47

# 1.0. Beth yw Rheoli Perfformiad?

Mae rheoli perfformiad yn broses strwythuredig, barhaus sy'n ein helpu i alinio nodau perfformiad unigol, tîm a sefydliad cyfan mewn ffordd strategol, gan ddarparu cyfeiriad teithio clir a chymhelliant i'n symud ymlaen. Mae'n cynnwys gosod disgwyliadau clir, darparu adborth rheolaidd, gwerthuso canlyniadau, a chefnogi datblygiad gweithwyr. Yn hollbwysig, mae cael fframwaith mewn grym i gefnogi ein rheolaeth perfformiad yn hyrwyddo cysondeb ar draws y cyngor, gyda phawb yn gweithio tuag at amcanion cyffredin ac yn defnyddio'r un meini prawf, arferion a dealltwriaeth. Mae'r cysondeb hwn nid yn unig yn gwella tegwch, atebolrwydd, a thryloywder, ond dylai hefyd gefnogi effeithlonrwydd gwasanaeth, cydweithio, a'r gallu i fesur llwyddiant a thyfu'n effeithiol.

Mae'r prosesau sydd gennym yng Nghonwy yn sicrhau ein bod yn cyflwyno'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud a'n bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cynnig gwasanaethau gwerth gwell i bobl a chymunedau. Rydym yn agored ac yn dryloyw ym mhopeth a wnawn, a gellir cael mynediad at ein cynlluniau strategol a'n hadroddiadau ar-lein drwy www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol a www.conwy.gov.uk/perfformiad.

## 1.1. Pam fod Rheoli Perfformiad yn Bwysig?

Mae rheoli perfformiad effeithiol yn ein helpu i gynllunio, monitro a gwella sut rydym yn darparu gwasanaethau. Mae'n sicrhau ein bod yn:

- Canolbwyntio ar ganlyniadau hirdymor, nid tasgau tymor byr yn unig.
- Gweithio tuag at 7 Nodau Lles Llywodraeth Cymru.
- Defnyddio dull cyson ar draws pob gwasanaeth.

Er ei bod yn bwysig bod gennym y systemau cywir mewn grym, dyw'r rheiny ond gystal â'r mewnbwn a roddwn ynddynt. Mae cyswllt cryf drwy'r broses – cyfranogiad a chyfranogiad gweithredol a pharhaus gan ddefnyddwyr wrth ei ddatblygu a'i gynhyrchu – yn allweddol ar gyfer rheoli perfformiad effeithiol. Os gwnawn hyn yn dda, yna gellir cadw monitro ac adrodd yn syml – yn gymesur ac heb fod yn feichus – gan ganiatáu mwy o ffocws ar wella gwasanaethau i bobl a'n cymunedau.

Mae'r penodau yn y canllaw hwn yn dangos yr amrywiaeth o rolau sy'n gysylltiedig â rheoli perfformiad. Mae angen i'r rhain weithio gyda'i gilydd gydag agoredrwydd, ymddiriedaeth a

dealltwriaeth a chefnogi ei gilydd i herio, dysgu a datblygu, fel unigolion ac fel sefydliad cyfan.

Mae gwaith pob aelod o staff yn gysylltiedig â'n nodau ehangach. Mae amcanion unigol yn cyd-fynd â chynlluniau tîm a gwasanaeth, sydd i gyd yn bwydo i'n Cynllun Corfforaethol (a chynlluniau is-ranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol ehangach y tu hwnt). Mae'r llwybr clir hwn yn helpu i sicrhau bod ymdrechion pawb yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau gwell i'n cymunedau.

## 1.2. Beth mae'r ddeddfwriaeth yn ei ddweud?

Mae nifer o gyfreithiau sy'n llywodraethu disgwyliadau rheoli perfformiad cyrff cyhoeddus. Mae'r rhain yn berthnasol i gynghorwyr a staff. Tair deddf allweddol yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

### 1.2.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n canolbwyntio ar feddwl hirdymor a chynaliadwyedd ac yn sefydlu saith Nod Lles cenedlaethol:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru Iachach
3. Cymru gydnerth
4. Cymunedau Cydlynus
5. Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu
6. Cymru sy'n fwy cyfartal
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Drwy weithio tuag at y nodau hyn, mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'n gilydd, edrych i atal problemau, a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Rhaid deall pob penderfyniad yng nghyd-destun Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain) a'i ategu gan **5 ffordd o weithio:**

1. **Hirdymor** – Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am warchod y gallu i ddiwallu anghenion hirdymor.

2. **Atal** - Gallai gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

3. **Integreiddio** - ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

4. **Cydweithio**- gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.

5. **Cyfranogi** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei gwasanaethu.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, edrychwch ar Hanfodion Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar-lein.

### 1.2.2. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i ni hunanasesu perfformiad yn barhaus yn erbyn ein 'swyddogaethau'. At ddibenion ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad chwe misol, mae 'swyddogaethau' yn cwmpasu ein Nodau Cynllun Corfforaethol a'r saith maes llywodraethu (Cynllunio Corfforaethol, Cynllunio Ariannol, Cynllunio Gweithlu, Caffael, Asedau, Rheoli Risg, a Rheoli Perfformiad). Dylai ein hadroddiadau nodi camau gwella yr ydym yn bwriadu eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.  Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl benodol o dan y Ddeddf i adolygu a gwneud argymhellion ar yr adroddiad cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo; ac os na chaiff adroddiad ei ddiwygio yn dilyn argymhelliad gan y pwyllgor, rhaid i'r adroddiad roi'r rheswm pam na dderbyniwyd y newidiadau hynny.  Gellir gweld fframwaith ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad yn atodiad 1.

#### 1.2.2.1. Ymgysylltu â Budd-ddeiliad

Mae'n hefyd yn ofynnol dan y Ddeddf i ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar ein perfformiad bob blwyddyn. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein Harolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliad ac mae'r canlyniadau'n cael eu cynnwys yn ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad.  Yn ogystal, fel rhan o'n hymrwymiad i asesiad parhaus, byddwn hefyd yn cynnwys camau gwella a nodwyd drwy ein rhaglen Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth.

#### 1.2.2.2. Asesiad Perfformiad Panel

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno dyletswydd i Gynghorau i drefnu panel annibynnol dan arweiniad cymheiriaid i gynnal asesiad, o leiaf unwaith yn ystod pob cylch etholiadol, i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion o ran perfformiad. Pwrpas yr Asesiad Perfformiad Panel yw rhoi safbwynt allanol, a dylid ei ddefnyddio i helpu'r Cyngor wella. Fel arfer, cynhelir asesiad dros gyfnod o bedwar diwrnod ac mae'n cynnwys adolygu dogfennau a chynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda swyddogion, cynghorwyr a budd-ddeiliaid allweddol. Fel cyngor, rydym wedi dewis gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i weithredu trefniadau Asesiad Perfformiad Panel, a gellir dod o hyd i'w methodoleg ar eu gwefan yma.

Wrth gyhoeddi ac ymateb i Asesiad Perfformiad Panel, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y casgliadau a'r argymhellion er mwyn nodi'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i fodloni'r gofynion perfformiad yn well. Rhaid i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor adolygu drafft o'r Adroddiad Ymateb hwn i Asesiad Perfformiad Panel. Dylai'r Cyngor fyfyrio ar ganfyddiadau'r Asesiad Perfformiad Panel pan fydd yn cynnal ei hunanasesiad nesaf, i weld a yw gwersi a ddysgwyd wedi cael eu rhoi ar waith. Mae hyn yn rhan o ddiwylliant lle mae cynghorau'n agored i her ac yn ei chroesawu.

I gael rhagor o wybodaeth am ofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ewch i'r Canllawiau Statudol.

### 1.2.3. Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus

O dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, disgwylir i gynghorau lleol yng Nghymru ymgorffori egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn eu prosesau cynllunio a hadrodd strategol. Yn benodol, rhaid i gynghorau ddatblygu eu hamcanion mewn ymgynghoriad ag undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff, gan sicrhau cyfranogiad ystyrlon yn ystod camau ffurfiannol. Mae hyn yn cynnwys darparu digon o wybodaeth ac amser i gynrychiolwyr ystyried cynigion ac ymateb iddynt. Rhaid i gynghorau hefyd gynhyrchu adroddiadau perfformiad blynyddol sy'n dangos sut maent wedi cyflawni eu dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol. Er nad yw'r Ddeddf yn rhagnodi fformat penodol ar gyfer yr adroddiadau hyn, rhaid iddynt ddangos yn glir sut mae cynghorau wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr staff, wedi ceisio consensws, ac wedi integreiddio partneriaeth gymdeithasol i wneud penderfyniadau. Yn ogystal, rydym yn rheolaidd yn cyflwyno ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad i undebau llafur drwy gyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol i gael mewnbwn.

### 1.2.4. Beth am ddeddfwriaeth arall?

Mae yna lawer o ddarnau pwysig eraill o ddeddfwriaeth gyda gofynion adrodd y mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â nhw fel cyngor, er enghraifft, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys Dyletswydd Gymdeithasol-Economaidd 2021) a Rheoliadau 2011 (Cymru) dilynol; Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, ac ati. Yn ogystal, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu ac adrodd ar ein llywodraethu bob blwyddyn. Mae’r fframweithiau deddfwriaethol hyn yn cefnogi egwyddorion arweiniol Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol drwy roi lles unigolion a chymunedau a chyfranogi yn greiddiol i bopeth a wnawn.

## 2.0. Sut ydym ni'n adrodd ar ein perfformiad?

Mae nifer o ddogfennau allweddol sy'n ffurfio ein fframwaith adrodd ac yn arwain y ffordd y darperir ein gwasanaethau, ac maent i gyd wedi'u cysylltu. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych yn rhoi cyfarwyddyd lefel uchel i'n gwaith. Mae’r Bwrdd yn gyfrifol, dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, am greu Cynllun Lles ar gyfer ei ardal, gan ymateb i Nodau Lles Llywodraeth Cymru. Cytunir ar hyn gan bob partner ar y BGC a ddylai weithio tuag at ei gyflawni. Mae'n seiliedig ar ddadansoddiad helaeth o angen ac ymgysylltiad budd-ddeiliaid, a gofnodir yn ei asesiad o les lleol (neu Asesiad Lles).

Yna, mae angen i gyrff cyhoeddus ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy’n cynnwys Cyngor Sir Ddinbych, ystyried sut y byddant yn gweithio tuag at y Cynllun Lles. Rydym yn gwneud hyn trwy ein Cynllun Corfforaethol, sef y cynllun strategol cyffredinol ar gyfer ein sefydliad. Yn ogystal â chynnwys ein cyfraniad at y Cynllun Lles, bydd yn ymateb i'r Asesiad Lles gan ganolbwyntio ar ôl troed ein sir a meysydd gwaith sy'n bwysig i'r cyngor. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth a mewnbwn partneriaid, cytunir ar y Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor etholedig. Er mai'r Cyngor yw perchnogion y Cynllun, y Cabinet sydd â’r ddyletswydd i’w gyflawni. Caiff ei fonitro drwy ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad chwe misol i uwch reolwyr ac aelodau a'u cyhoeddi yn www.conwy.gov.uk/perfformiad.

Mae gan bob gwasanaeth ei Gynllun Gwasanaeth ei hun sy'n cefnogi'r nodau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Corfforaethol. Mae templed ar gyfer cynlluniau gwasanaeth ar gael yn atodiad 2, ac mae'r Tîm Perfformiad a Gwella yn cynhyrchu rhestr o awgrymiadau bob

blwyddyn i gefnogi trafodaethau cynllunio gwasanaethau (anfonwch e-bost at TGDC@conwy.gov.uk am y fersiwn ddiweddaraf). Fel arfer, caiff cynlluniau gwasanaeth eu hadolygu'n flynyddol (ochr yn ochr â Chynllunio'r Gweithlu) rhwng mis Ionawr a mis Mawrth a'u cymeradwyo gan yr Aelod(au) Cabinet perthnasol erbyn mis Mawrth 31 cyn i'r flwyddyn ariannol newydd ddechrau ym mis Ebrill. Caiff Cynlluniau Gwasanaeth eu monitro'n rheolaidd gan reolwyr gwasanaeth a'r Tîm Perfformiad a Gwella. Bydd perfformiad meysydd gwasanaeth hefyd yn cael ei graffu'n drylwyr unwaith y flwyddyn fel rhan o'r Rhaglen Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth dreigl.

Efallai y bydd gan wasanaethau mwy gynlluniau seiliedig ar dimau ar gyfer timau unigol hefyd, ond dylai fod cysylltiad bob amser rhwng amcanion staff a'r Cynllun Gwasanaeth i alluogi timau ac unigolion i fod yn glir ynghylch yr hyn maen nhw'n ei wneud i gyfrannu at y Cynllun Corfforaethol.

## 2.1. Cylch Rheoli Perfformiad

Mae'r diagram isod yn crynhoi ein cylch rheoli perfformiad:




1. Mae ein **Cynllun Corfforaethol** fel arfer yn para 5 mlynedd ac mae'n gynnyrch ymgysylltu cyhoeddus helaeth, asesiad o les lleol, adolygiad o bolisïau, deddfwriaeth a strategaethau cenedlaethol presennol, a mewnbwn gan staff, cynghorwyr sy'n gadael ac yn dod i mewn, a phartneriaid. Ar ôl cytuno arnynt, mae

**Cynlluniau Gwasanaeth** yn cael eu halinio â'n nodau ac amcanion a osodwyd yn gorfforaethol.

2. Ar ôl i'r cyfeiriad strategol gael ei bennu, bydd timau'n ymgysylltu ar y ffordd orau o gyflawni yn erbyn y nodau a'r amcanion y cytunwyd arnynt. Rydym yn argymell bod cynnwys cynlluniau gwasanaeth yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn i ystyried amgylchedd sy'n newid yn barhaus ac i gynnal perthnasedd. Bydd ystyried **cyllidebau** gwasanaeth a **Chynllunio'r Gweithlu** hefyd yn bwysig ar y cam hwn.

3. Trwy **Sgwrs Conwy** – ein sesiwn un-i-un rhwng staff a'u rheolwr atebol – cynhelir trafodaethau ynghylch **amcanion unigol** a chyfraniad aelodau staff at nodau'r tîm, y **Cynllun Gwasanaeth** a nodau'r **Cynllun Corfforaethol**. Ar y lefel hon, gellir gwneud cywiriadau cwrs, a nodi cefnogaeth bellach lle bo angen i helpu gyda datblygiad staff neu i gefnogi lles staff.

4. Yna mae mecanweithiau ar waith hefyd i asesu cynnydd a gwneud cywiriadau cwrs yn gorfforaethol, megis trwy ein proses **Hunanasesu Perfformiad**, sy'n adolygu nodau a pherfformiad ein Cynllun Corfforaethol. Cyflwynir y rhain i'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwe mis. Mae hyn hefyd yn ystyried allbynnau ein **Hadolygiadau Perfformiad Gwasanaeth**, sy'n myfyrio ar berfformiad Gwasanaeth yn flynyddol. Yna mae gennym brosesau **Cynllunio Gweithlu** ac adolygu sgiliau mewn grym hefyd i gefnogi staff a gwasanaethau i gael y cymysgedd cywir o dalent sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

5. Ar ddiwedd ein cylch, gan ein cefnogi i fod yn sefydliad sy'n **dysgu ac yn tyfu**, ac sy'n cael ei arwain gan ddeallusrwydd, mae'r adborth a gasglwyd gennym drwy gydol y cylch rheoli perfformiad – gan unigolion, timau, gwasanaethau, a'r sefydliad cyfan – yn cael ei fwydo'n ôl i'n prosesau i annog gwelliant a thwf parhaus.

## 2.2. I ble mae'r data'n mynd?

Rydym yn defnyddio system rheoli perfformiad integredig o'r enw CAMMS-Riskonnect i'n helpu i reoli ein gwybodaeth am risg, rhaglen, prosiect a pherfformiad, gan gynnwys camau rheoleiddio. Mae'r system wedi'i hintegreiddio i sicrhau mai dim ond unwaith y mae angen i swyddogion ychwanegu diweddariadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw brosiect, risg,

cynllun neu gamau gweithredu. Mae hyn yn cadw'r gwaith adrodd yn syml, ac yn osgoi dyblygu.

Mae ein cylch adrodd yn bennaf yn dilyn y flwyddyn ariannol o fis Ebrill i fis Mawrth. Er bod gwasanaethau'n rhydd i ddiweddaru ac adrodd ar fesurau a chamau gweithredu perthnasol yn CAMMS-Riskonnect yn fisol, chwarterol, neu flynyddol fel y bo'n ddefnyddiol iddynt, mae ein strwythur adrodd corfforaethol yn dilyn cylch chwe mis lle bydd gwasanaethau'n diweddaru data eu Cynllun Gwasanaeth ym mis Hydref ac Ebrill. Mae hyn yn hwyluso adroddiadau amserol i'r ddemocratiaeth ym mis Tachwedd / Rhagfyr (ein hadroddiad canol blwyddyn), a mis Mai / Mehefin (ein hadroddiad diwedd blwyddyn).

Mae adroddiadau Hunanasesu Perfformiad sy'n cwmpasu mis Ebrill i fis Medi a mis Hydref i fis Mawrth, ynghyd â'n Crynodeb Gweithredol blynyddol, gyda'i gilydd yn ffurfio ein Hunanasesiad blynyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (gweler atodiad 1). Fe'u cyflwynir i'r Uwch Dîm Rheoli, y Cabinet, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, ac unwaith y flwyddyn i'r Cyngor. Gellir gweld ein holl adroddiadau Hunanasesu Perfformiad ar ein gwefan yn www.conwy.gov.uk/perfformiad. Mae egwyddorion allweddol ar gyfer ysgrifennu adroddiadau perfformiad da hefyd wedi'u cynnwys yn atodiad 4.

## 2.3. Fframwaith Cynllunio Busnes

Dyma amlinelliad o'n hamserlen ar gyfer monitro ac adrodd ar weithgarwch. Gall hyn newid yn dibynnu ar yr amserlen pwyllgorau.

| Mis | Cynllunio Ariannol | Cynllunio Gwasanaethau | Gwleidyddol |
|---|---|---|---|
| Ebrill | - | Cynlluniau Gwasanaeth yn dechrau<br>Dylai staff nawr adolygu eu hamcanion Sgwrs Conwy yn unol ag amcanion y gwasanaeth.<br>Gwasanaethau'n diweddaru Cynllun Gwasanaeth CAMMS-Riskonnect a risgiau ar gyfer diwedd y flwyddyn. | Cofrestr Risgiau Gorfforaethol – Adolygiad y Gwanwyn<br>Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mai | Gweithgor Cyllideb. | - | Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth |
| Mehefin | Gweithgor Cyllideb. | - | Hunanasesiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn wedi'i gyflwyno i'r Cabinet, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth |
| Gorffennaf | Gweithgor Cyllideb.<br><br>Gwasanaethau'n cyflwyno cynigion lleihau cyllideb. | - | Hunanasesiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn wedi'i gyflwyno i'r Cyngor.<br><br>Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth |
| Awst | Gweithgor Cyllideb.<br><br>Gwasanaethau'n cyflwyno cynigion lleihau cyllideb. | - | - |
| Medi | Gweithgor Cyllideb.<br><br>Amserlen Fframwaith Cynllunio Busnes wedi'i chytuno'n ffurfiol.<br><br>Achosion Busnes Refeniw yn cael eu cyflwyno gan wasanaethau.<br><br>Gwasanaethau'n cyflwyno cynigion lleihau cyllideb. | - | Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth |
| Hydref | Gweithgor Cyllideb - Ysgolion | Gwasanaethau'n diweddaru Cynllun Gwasanaeth CAMMS-Riskonnect a risgiau ar gyfer canol y flwyddyn. | Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Achosion Busnes Cyfalaf yn cael eu cyflwyno gan wasanaethau. | | |
| Tachwedd | Setliad Ariannol Drafft gan Lywodraeth Cymru. | - | Cofrestr Risg Gorfforaethol - Adolygiad yr Hydref (gan gynnwys adolygiad o Barodrwydd i Dderbyn Risg).<br><br>Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth |
| Rhagfyr | Cytuno ar y gyllideb a Chynllun Ariannol Tymor Canol | - | Hunanasesiad Perfformiad 6 mis wedi'i gyflwyno i'r Cabinet, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth. |
| Ionawr | Cyllideb Derfynol wedi'i Setlo gan Lywodraeth Cymru. | Cynllunio Gwasanaeth yn dechrau (ochr yn ochr â Chynllunio'r Gweithlu, adolygu bylchau sgiliau ac anghenion hyfforddi, ac ati). | Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth. |
| Chwefror | Penderfyniadau Cyllideb ac Achosion Busnes. | Cynllunio Gwasanaeth yn parhau. | Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth. |
| Mawrth | Penderfyniadau Cyllideb ac Achosion Busnes. | Cynlluniau gwasanaeth wedi'u cwblhau a'u llofnodi gan Aelodau'r Cabinet erbyn Mawrth 31.<br>Cynllun Gweithredu Cynllunio'r Gweithlu hefyd wedi'i gyflwyno. | Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth. |

**Sylwer:** Mae casglu, cyflwyno a dilysu ffurflenni data statudol yn parhau drwy gydol y flwyddyn, a bydd yr amseriadau'n amrywio yn dibynnu ar y maes gwasanaeth.

## 3.0. Sut ydym ni'n mesur perfformiad?

Mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn seiliedig ar Ganlyniadau'n Cyfrif. Mae Canlyniadau'n Cyfrif wedi'i seilio o gwmpas y bedair gydran ganlynol:

1. **Canlyniad** - Nod yr ydym am ei gyflawni a fydd o fudd i bobl, y gymuned, neu'r sefydliad. Fel arfer, mae canlyniadau'n hirdymor ac yn canolbwyntio ar y cwsmer.
2. **Dangosyddion** - Mesurau effaith sy'n cefnogi'r Canlyniad. Mae *dangosyddion* yn arwydd o ba mor agos yr ydym at gyflawni'r Canlyniad. Fodd bynnag, nid ydynt yn gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth. Mae mesurau boddhad yn fath o ddangosydd.
3. **Mesurau perfformiad** - Mesurau ymdrech sy'n cefnogi'r Dangosyddion a'r Canlyniad. Mae mesurau perfformiad yn dweud wrthym pa mor dda yr ydym yn gwneud gyda'r gweithgaredd yr ydym yn ei gyflawni. Maent yn gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth.
4. **Gweithgareddau**– Camau gweithredu, prosiectau neu raglenni gwaith a nodwyd i gefnogi'r Canlyniad. Maent yn cyflawni allbynnau a buddion yn y tymor byrrach i ganolig, gan gyfrannu ar y cyd at gyflawni'r Canlyniad tymor hwy.

### 3.1. Targedau a Goddefiannau

Mae gosod targed a throthwy goddefgarwch ategol yn caniatáu inni osod rhywfaint o gyd-destun i ba mor dda neu wael yr ydym yn perfformio mewn rhywbeth. Nid ydynt yn offer ar gyfer cosbi na beio ond dylent gefnogi sgyrsiau ynghylch cyfeiriad priodol ein hadnoddau ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaethau (gan gynnwys meysydd tanberfformio ac weithiau gorberfformio).

- **Targed (Perfformiad rhagorol)** – Dylai ein targedau gynrychioli'n rhesymol ein huchelgais ar gyfer y mesur, gan fod yn realistig o fewn y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo, e.e. cyllideb, capasiti, ac ati.
- **Trothwy Goddefiant (perfformiad anfoddhaol)**- Mae ein trothwy goddefiant yn cynrychioli'r pwynt lle mae angen ymyrraeth sylweddol i wella ein perfformiad. Lle rydym wedi nodi **Dim Goddefiant**, mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig bod y targed yn cael ei gyrraedd.

Ar ôl penderfynu ar yr uchod, gallwn ddeall yn well yr 'ystodau' perfformiad sy'n dderbyniol neu'n annerbyniol i ni (gweler Statws Perfformiad isod). Ein dull diofyn o osod targedau a goddefiannau lle mae data cenedlaethol ar gael a lle mae'n briodol cymharu ein hunain fyddai defnyddio'r chwartel uchaf a'r safle canolrifol yn y drefn honno o unrhyw set ddata.

Wrth ddatblygu fframwaith ein Cynllun Corfforaethol, rydym wedi ceisio’n rhagweithiol gynnwys mesurau a gyhoeddwyd yn genedlaethol y gallwn feincnodi ein hunain yn eu herbyn, gyda’n targedau a’n goddefiannau’n cael eu llywio gan ddata perfformiad chwartel uchaf neu ganolrif lle bo’n briodol. Mae’r rhain wedi’u dynodi yn ein hadroddiadau fel rhai sydd wedi’u **Meincnodi’n Genedlaethol**.

Lle nad oes unrhyw fesurau na data ar gael y gallwn gymharu ein hunain yn rhesymol â nhw (naill ai’n genedlaethol neu drwy grwpio cymharol), byddwn yn datblygu mesurau lleol ac yn cymryd barn leol ar yr hyn yr ydym yn teimlo sy’n pennu perfformiad da neu wael yn rhesymol. Mae’r rhain wedi’u dynodi fel rhai sydd wedi’u **Meincnodi’n Lleol**.

Mewn rhai achosion, nid yw’n bosibl nac yn briodol gosod targedau, ond mae’r mesurau eu hunain yn dal i gyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol am berfformiad. Bydd y rhain wedi’u nodi fel **Cyfrif yn Unig**.

## 3.2 Statws Perfformiad

Rydym yn defnyddio ymagwedd pedwar lliw - coch, oren, melyn, gwyrdd (COMG) wrth fesur ein perfformiad a’n gweithgareddau. Pan fydd mesur yn cael ei nodi fel **Cyfrif yn Unig**, nid yw statws COG a dangosyddion o dueddiadau yn berthnasol.

### 3.2.1. Ar gyfer mesurau

- Mae statws **Gwyrdd** yn golygu ein bod yn cyflawni perfformiad **Rhagorol**.
- Mae statws **Melyn** yn golygu ein bod yn cyflawni perfformiad **Da**.
- Mae statws **Oren** yn golygu ein bod yn cyflawni perfformiad **Boddhaol**, ond efallai y bydd angen canolbwyntio ar y mesur.
- Mae statws **Coch** yn golygu bod perfformiad yn **Anfoddhaol**.

Mae'r diagram isod yn dangos y statws Coch, Oren, Melyn, Gwyrdd (COMG) ar waith a'u perthynas â'r targed a'r trothwyon goddefiant a osodwyd, yn enwedig lle rydym wedi cymhwyso ein dull diofyn gan gymryd y chwartel uchaf o ddata a gyhoeddwyd yn genedlaethol fel ein targed rhagoriaeth, a'r ffigur canolrif fel y trothwy goddefiant, y pwynt lle mae angen ymyrraeth sylweddol. Y trothwy rhwng **Melyn: Ar y Trywydd Iawn**, ac **Oren: O Fewn Goddefiant** yw'r ffigur canol ffordd rhwng y targed rhagoriaeth gwyrdd (e.e. chwartel uchaf) a'r trothwy goddefiant coch (e.e. canolrif).




### 3.2.2. Ar gyfer gweithgaredd (defnyddio ein methodoleg prosiect)

- Mae statws **Gwyrdd** yn golygu bod yr elfen hon **Ar y Trywydd Iawn** ac yn symud ymlaen fel y bwriadwyd.
- Mae statws **Melyn** yn golygu ein bod yn **Cael Problemau** gan wyro rhywfaint oddi wrth y cynllun gwreiddiol.
- Mae statws **Oren** yn golygu bod y gweithgaredd **Mewn Perygl** ac angen camau i'w gywiro.
- Mae statws **Coch** yn golygu bod y gweithgaredd y tu allan i'r goddefiant ac **Oddi Ar y Trywydd Iawn**, sy'n dynodi sefyllfa ddifrifol a'r angen am ymyrraeth sylweddol.

### 3.3. Disgrifiadau o Dueddiadau

Mae ein hadroddiad yn cymharu'r pwynt data diweddar (sefyllfa derfynol) â'r cyfnod a oedd ar gael yn flaenorol. Nid yw disgrifiadau tueddiadau yn disgrifio unrhyw symudiad na newid yn statws COG. **Sylwch hefyd** ein bod yn cymharu â'r un cyfnod yn achos y mesurau bob chwe mis ***cronnus*** (h.y. y mesurau canol blwyddyn diweddaraf gyda'r mesurau canol blwyddyn blaenorol, y mesurau diwedd blwyddyn diweddaraf gyda'r mesurau diwedd blwyddyn blaenorol).

- Caiff **'Gwell'** ei ddefnyddio pan fo'r newid yn y canlyniad yn welliant. Pan mae canrannau neu niferoedd uwch yn ddymunol bydd y ffigwr yn uwch na'r ffigwr blaenorol. Pan mae canrannau neu niferoedd is yn ddymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol.
- Mae **'yr un fath'** yn cael ei ddefnyddio pan na fydd newid yn yr alldro, gyda pherfformiad yn cyd-fynd â'r cyfnod blaenorol sydd ar gael.
- Mae **'gwaeth'** yn cael ei ddefnyddio pan fydd newid yn yr alldro yn dangos dirywiad. Pan y mae canrannau neu niferoedd is yn annymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol. Pan mae canrannau neu niferoedd is yn ddymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol.

## 4.0. Sut ydym yn herio ein gwasanaethau i wella?

Mae gennym raglen dreigl o Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth sy'n sicrhau bod pob gwasanaeth yn y cyngor yn cael ei graffu unwaith bob blwyddyn ariannol. Mae'n rhoi cyfle i gael deialog agored, onest ac adeiladol rhwng Pennaeth y Gwasanaeth, rheolwyr gwasanaeth ac aelodau ynghylch cryfderau a gwendidau darpariaeth gwasanaeth. Caiff pob aelod eu gwahodd i fynychu pob adolygiad. Cyn yr adolygiad, caiff pecyn o wybodaeth ei gasglu a'i rannu. Mae hyn yn cynnwys hunanasesiad yn amlinellu cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT), Adroddiad ar Gynnydd y Cynllun Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gwasanaeth, ac unrhyw ddogfennau perthnasol neu ddefnyddiol eraill.

Yn ogystal â'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth ffurfiol, rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth gynnal cysylltiad â'u Haelod(au) Cabinet ar faterion perfformiad drwy eu sesiynau dal i fyny rheolaidd, ac ymarfer SWOT canol blwyddyn (rhwng Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth).

Mae'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth yn rhan o'n proses hunanasesu barhaus ac yn ein helpu i nodi gweithgaredd gwella allweddol, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad chwe misol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Perfformiad a Gwella.

## 5.0. Sut ydym ni'n rheoli ein risgiau a'n problemau?

Mae Rheoli Risg yn rhan hanfodol o sut rydym ni'n rheoli perfformiad yn y cyngor. Byddai anelu at ddiwylliant di-risg yn amhosibl ac yn amhriodol gan y byddai'n atal arloesedd. Fodd bynnag, mae angen i ni ddeall y risgiau rydym yn eu hwynebu a'u rheoli'n briodol. Mae hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol ac yn cyfrannu at gyflawni ein canlyniadau.

Mae ein *Canllaw Rheoli Risg: Rheoli Risg er mwyn Darparu Gwasanaethau Gwell* cysylltiedig yn egluro'r fframwaith sydd gennym mewn grym i gefnogi rheoli risg effeithiol, ac mae ar gael ar ein gwefan yn www.conwy.gov.uk/risg. Caiff ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol, sy'n catalogio ein risgiau mwyaf difrifol ar draws y sefydliad, ei hadolygu bob chwe mis a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet, fel arfer tua mis Tachwedd / Rhagfyr a mis Mawrth / Ebrill. Ewch i'n gwefan yma i weld papurau'r pwyllgor.

## 6.0. Sut ydym ni'n rheoli rhaglenni a phrosiectau?

Mae gwelliant parhaus a thrawsnewid busnes yn golygu bod yn rhaid i ni reoli nifer fawr o raglenni a phrosiectau yn amrywio o'r syml iawn i'r cymhleth iawn. Mae rheolaeth briodol a llywodraethu cryf yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant. Fel rhan o'r broses wella, rydym wedi diffinio dull cyffredin o reoli rhaglenni a phrosiectau (PPM) y dylid ei ddefnyddio ar gyfer pob prosiect. Mae hyn yn cynnwys Fframwaith PPM ar gyfer rheolwyr prosiectau ac aelodau tîm a set o lifau gwaith ar gyfer prosiectau a rhaglenni o fewn CAMMS-Riskonnect, ein system rheoli perfformiad a phrosiectau.

Mae briffiau rhaglenni a phrosiectau arwyddocaol yn cael eu cymeradwyo trwy'r broses ddemocrataidd, yn cael eu hadrodd yn chwarterol trwy ein Dangosfwrdd Crynodeb Rhaglenni a Phrosiectau, a rhennir Adroddiad Diwedd Rhaglen / Prosiect hefyd pan ddaw gweithgareddau i ben. Mae'r Dangosfwrdd hwn yn cael ei fonitro a'i adolygu gan y Tîm Arwain Strategol, y Cabinet Anffurfiol, a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Gall y swyddogaeth graffu hefyd ofyn i unrhyw raglen neu brosiect gyflwyno adroddiad unigol i ddarparu mwy o fanylion, yn ôl yr angen.

Mae rhagor o wybodaeth am reoli Rhaglenni a Phrosiectau ar gael i staff ar ein tudalen mewnrwyd, neu trwy gysylltu â ppm@conwy.gov.uk.

## 7.0. Beth am archwiliadau ac arolygiadau?

Mae Rheoleiddwyr Allanol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau ac arolygiadau ar draws awdurdodau lleol Cymru i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.  Eu pwrpas yw cefnogi gwelliant parhaus gwasanaethau cyhoeddus a helpu i gyflawni canlyniadau effeithiol i unigolion a chymunedau sy'n dibynnu arnynt. Mae ein prif reoleiddwyr allanol yn cynnwys:

- Archwilio Cymru (AW) (Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu)
- Estyn (Addysg)
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) (Gwasanaethau Cymdeithasol)

Rydym hefyd yn cael ein harchwilio gan reoleiddwyr eraill o bryd i'w gilydd.

Mae archwilwyr allanol yn cytuno ar raglen flynyddol o archwilio, arolygu a rheoleiddio a fydd yn digwydd yn genedlaethol ledled pob awdurdod yng Nghymru, ac yn lleol, yn benodol i Gonwy.  Yn dilyn archwiliad, cynhyrchir adroddiad sy'n nodi canfyddiadau'r gwaith ac yn gwneud argymhellion lle bo'n briodol. Byddwn yn ymateb i'r argymhellion trwy ddatblygu cynllun gweithredu sy'n darparu'r cynnydd a wnaed ar bob argymhelliad, ynghyd â chamau gweithredu a dyddiadau awgrymedig ar gyfer gweithredu.  Lle teimlir nad yw argymhellion yn ychwanegu gwerth neu eu bod yn anghyraeddadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael, bydd yr ymateb yn darparu esboniad dros beidio â'u bwrw ymlaen.

Caiff y cynlluniau gweithredu sy'n ymateb i argymhellion eu hadrodd yn gyntaf i'n Grŵp Gwella ac Archwilio mewnol, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Cyllid ac Adnoddau ac sydd â goruchwyliaeth dros weithgarwch rheoleiddio.  Yna caiff cynlluniau gweithredu eu dychwelyd i'r rheoleiddiwr i gymeradwyo cynnwys y cynllun.

Cafodd pob adroddiad allanol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig eu hadrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol i'w galluogi i graffu ar gynnwys yr adroddiad ac effeithiolrwydd y camau gweithredu sy'n cael eu cyflwyno. Yna cânt eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi sicrwydd bod ein prosesau rheoleiddio yn effeithiol.  Wedi hynny, caiff y cynnydd a wneir ar gyflawni ein gweithgaredd rheoleiddio ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'n hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad chwe misol.

# 8.0. Sut ydym ni'n rheoli ein hadnoddau?

## 8.1. Ein gweithlu

Ein gweithlu yw ein hadnodd mwyaf a mwyaf gwerthfawr, ac felly mae'n hanfodol ein bod yn rhoi cefnogaeth a chyfarwyddyd priodol iddynt, ac yn monitro perfformiad unigol, yn ogystal â pherfformiad tîm a gwasanaeth. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn dathlu llwyddiant, yn rhannu arfer da ac yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael yn rhagweithiol. Mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i staff fod yn gymwys i gyflawni eu hamcanion unigol. Mae angen gweithlu hyblyg ac addasadwy arnom sy'n annog ffocws ar gwsmeriaid, arloesedd, gwelliant parhaus a chyfathrebu da.

Mae gan bob Gwasanaeth Bartner Busnes Adnoddau Dynol Corfforaethol wedi'i ddyrannu i roi cefnogaeth iddynt ym mhob agwedd ar reoli staff. Mae yna hefyd amrywiaeth o bolisïau AD Corfforaethol sy'n cefnogi:

- Rheoli Doniau
- Lles Staff
- Prentisiaethau a lleoliadau gwaith
- Cynllunio Olyniaeth
- Hyfforddiant Corfforaethol
- Gwella Perfformiad
- Absenoldeb Oherwydd Salwch

Mae gennym hefyd ein dull **Sgwrs Conwy** (dolen fewnrwyd staff) i gefnogi trafodaethau un-i-un staff a rheolwyr atebol, lle dylid plethu perfformiad i'r sgwrs dal i fyny reolaidd ac ystyrlon hon. Dylai fod yn glir i staff sut mae'r cyfraniad y maent yn ei wneud yn cefnogi amcanion y tîm, amcanion y gwasanaeth a'r amcanion corfforaethol.

Mae data gweithlu sy'n cefnogi ein Cynllun Corfforaethol wedi'i gynnwys yn ei Fframwaith Rheoli Perfformiad ac yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r ddemocratiaeth trwy ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad. Mae data allweddol am y gweithlu, megis absenoldeb staff, hyfforddiant, Sgyrsiau Conwy, ar gael i reolwyr i gefnogi trafodaethau cynllunio gweithlu a busnes, tra bod adroddiadau eraill sy'n cyflwyno gwybodaeth AD, diweddariadau polisi a data gweithlu hefyd yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau.

## 8.2. Cyllid

Mae gan Gonwy Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) sy'n nodi ein dull strategol o reoli arian ac yn amlinellu rhai o'r materion ariannol yr ydym yn eu hwynebu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae cyflawni'r strategaeth yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael drwy setliadau Llywodraeth Cymru ac ar lwyddiant y Cyngor wrth alinio adnoddau â'i nodau a blaenoriaethau.

I gefnogi ein rheolaeth ariannol, mae gennym set o Reoliadau Ariannol sy'n ffurfio polisïau ariannol yr awdurdod. Mae'r Rheoliadau hyn, ar y cyd â Chodau Ymarfer Ariannol, Rheolau Sefydlog Contractau, y Cynllun Dirprwyo, Pwyllgorau Craffu a Chodau Ymddygiad gweithwyr ac aelodau, yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal ein busnes.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet yn derbyn adroddiadau diweddaru'n rheolaidd ar ein sefyllfa ariannol drwy gydol y flwyddyn. Gellir gweld y rhain drwy ein tudalennau gwe pwyllgorau. Am ragor o wybodaeth am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ewch i'n gwefan yma.

# 9.0. Rhywbeth i Bawb: Deall Eich Rôl wrth Reoli Perfformiad!

Mae'n bwysig bod pawb yn deall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau wrth reoli perfformiad. Yn anad dim, fodd bynnag, rhaid inni gydnabod sensitifrwydd ynghylch materion perfformiad a thrin pawb â pharch a charedigrwydd. Dylai sgyrsiau perfformiad bob amser fod ynghylch cefnogaeth adeiladol ac nid ceisio beio.

- **Teg:** Rydym yn parchu, rydym yn cynnwys, rydym yn sefyll yn gyfartal.
- **Gofalu:** Rydym yn buddsoddi, rydym yn cyfathrebu, rydym yn cefnogi.
- **Chwaraewr Tîm:** Rydym yn cydweithio, rydym yn grymuso, rydym yn datblygu.
- **Arloesi:** Rydym yn gwrando, rydym yn dysgu, rydym yn tyfu.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi crynodeb o'r hyn y gallwch ei ddisgwyl yn eich rôl gyda'r cyngor a'r hyn yr ydych yn gyfrifol amdano.

## 9.1. Aelodau'r Cyhoedd

### Fel aelod o'r cyhoedd rydw i'n disgwyl:

- **Tryloywder a Gonestrwydd**: Rwyf eisiau gwybodaeth glir a gonest am y gwasanaethau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnaf. Rwy'n gwerthfawrogi cael fy niweddaru a chael mynediad at yr holl fanylion perthnasol.
- **Parch ac Urddas**: Rwy'n disgwyl cael fy nhrin â pharch ac urddas ym mhob rhyngweithiad. Dylid gwerthfawrogi ac ystyried fy marn a'm profiadau.
- **Cymryd Rhan Weithredol**: Rwyf eisiau cyfleoedd i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylid clywed fy llais, a dylai fy nghyfraniadau wneud gwahaniaeth.
- **Cefnogaeth a Chyfarwyddyd**: Mae angen cefnogaeth a chyfarwyddyd arnaf i lywio'r gwasanaethau sydd ar gael i mi. Mae cyfarwyddiadau clir a gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol, cyfredol sy'n hawdd eu deall yn hanfodol i mi wneud dewisiadau gwybodus.
- **Atebolrwydd**: Rwy'n disgwyl i wasanaethau gael eu cynllunio'n dda i gefnogi anghenion y gymuned, gyda'r rhai sy'n gyfrifol yn atebol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Dylai fod mecanweithiau mewn grym i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu faterion sy'n codi.

### Rydw i’n gyfrifol am:

- **Ymgysylltu yn Weithredol**: Byddaf yn ymgysylltu'n weithredol mewn prosesau perfformiad ac yn rhoi fy mewnbwn.  Mae fy nghyfranogiad yn hanfodol ar gyfer llwyddiant ein hymdrechion ar y cyd.
- **Cael y Wybodaeth Ddiweddaraf**: Byddaf yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnaf.
- **Parchu Eraill**: Byddaf yn trin eraill â pharch ac urddas, yn union fel rwy'n disgwyl cael fy nhrin.
- **Rhoi Adborth Adeiladol**: Byddaf yn rhoi adborth adeiladol i helpu i wella gwasanaethau a phrosesau.  Gall fy marn arwain at newidiadau cadarnhaol.
- **Cymryd yr Awenau**: Byddaf yn cymryd yr awenau wrth geisio gwybodaeth, gofyn cwestiynau, a chymryd rhan.  Bydd fy null rhagweithiol yn cyfrannu at lwyddiant ein nodau cyffredin a gwella gwasanaethau a'n cymuned.

### Sut mae gwneud hyn?

- Gallwch weld cynnydd cyfredol y cyngor o ran perfformiad a rheoli risg drwy ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad, a gyhoeddir yn www.conwy.gov.uk/perfformiad.
- Mae cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Chraffu yn gyhoeddus ac mae croeso i chi fynychu. Gallwch hefyd wylio cyfarfodydd ar-lein drwy ein darllediadau gwe, sydd ar gael ar ein tudalennau gwe pwyllgorau.
- Mae gwybodaeth am sut i gysylltu â ni ar gael yma.

## 9.2. Aelodau Etholedig

### Fel aelod etholedig rydw i’n disgwyl:

- **Tryloywder a Gonestrwydd**: Rwyf eisiau gwybodaeth glir a gonest am y gwasanaethau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar fy etholwyr.  Rwy'n gwerthfawrogi cael fy niweddaru a chael mynediad at yr holl fanylion perthnasol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus.
- **Parch ac Urddas**: Rwy'n disgwyl cael fy nhrin â pharch ac urddas ym mhob rhyngweithiad.  Dylid gwerthfawrogi a chefnogi fy rôl a'm cyfrifoldebau.

- **Cymryd Rhan Weithredol**: Rwyf eisiau cyfleoedd i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylid clywed fy llais, a dylai fy nghyfraniadau wneud gwahaniaeth wrth siapio polisïau a gwasanaethau.
- **Cefnogaeth a Chyfarwyddyd**: Mae angen cefnogaeth a chyfarwyddyd arnaf i lywio cymhlethdodau fy rôl. Mae cyfarwyddiadau clir a gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol, cyfredol sy'n hawdd eu deall yn hanfodol i mi wneud dewisiadau gwybodus a gwasanaethu fy nghymuned yn effeithiol.
- **Atebolrwydd**: Rwy'n disgwyl i wasanaethau gael eu cynllunio'n dda i gefnogi anghenion y gymuned, gyda'r rhai sy'n gyfrifol yn atebol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Dylai fod mecanweithiau mewn grym i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu faterion sy'n codi, gan sicrhau ein bod yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

### Rydw i’n gyfrifol am:

- **Ymgysylltu yn Weithredol**: Byddaf yn ymgysylltu'n weithredol mewn prosesau perfformiad sy'n helpu i bennu gweledigaeth strategol y cyngor ac yn llywio cynllunio gwasanaethau, gan gynrychioli fy nghymuned a rhoi llais i'r hyn sy'n bwysig i les trigolion.
- **Cael y Wybodaeth Ddiweddaraf**: Byddaf yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar fy nghymuned er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus ac eirioli yn effeithiol.
- **Parchu Eraill**: Byddaf yn trin eraill â pharch ac urddas, yn union fel rwy'n disgwyl cael fy nhrin.
- **Rhoi Adborth Adeiladol**: Byddaf yn rhoi adborth adeiladol i helpu i wella gwasanaethau a phrosesau. Gall fy mewnwelediadau arwain at newidiadau cadarnhaol a chanlyniadau gwell i'r gymuned.
- **Cymryd yr Awenau**: Byddaf yn cymryd yr awenau wrth geisio gwybodaeth, gofyn cwestiynau, a chymryd rhan. Bydd fy null rhagweithiol yn cyfrannu at lwyddiant ein nodau cyffredin a gwella gwasanaethau a'n cymuned.

### Sut mae gwneud hyn?

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd, cynrychioli llais y dinesydd.
- Codi materion a phryderon gyda rheolwyr perthnasol.
- Ymgysylltu ac archwilio’r wybodaeth sydd ar gael er mwyn helpu i roi sail i benderfyniadau a nodi ffyrdd o wneud gwelliannau.

### 9.2.1. Aelodau Cabinet

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod Etholedig, fel aelod o'r Cabinet, rwy'n disgwyl:**

- Adroddiadau perfformiad a risg cywir ac amserol er mwyn helpu i lywio penderfyniadau a nodi meysydd ar gyfer gwella.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Monitro darpariaeth cynlluniau gwasanaeth a rheolaeth cofrestrau risg gwasanaeth gyda Phenaethiaid Gwasanaeth.
- Monitro a llywio'r gwaith o gyflawni Nodau ein Cynllun Corfforaethol.
- Monitro a rheoli risgiau ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

**Ydw i wedi?**

- Cyfarfod â'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol yn fy mhortffolio i roi mewnbwn a chytuno ar gynnwys y Cynllun Gwasanaeth erbyn 31 Mawrth?
- Rhoi mewnbwn i'r broses Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth?
- adolygu gwybodaeth perfformiad a risg ar gyfer y Cyngor a'r gwasanaethau rydw i'n eu cynrychioli yn rheolaidd?

### 9.2.2. Aelodau Craffu(gan gynnwys aelodau cyfetholedig)

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod Etholedig (nid yw'n berthnasol i aelodau cyfetholedig), fel Aelod Craffu rwy'n disgwyl:**

- Adroddiadau perfformiad a risg cywir ac amserol er mwyn helpu i graffu ar ddarpariaeth gwasanaethau a nodi meysydd ar gyfer gwella.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Craffu ar gyflawni Nodau'r Cynllun Corfforaethol.
- Craffu ar reoli ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol.
- Craffu ar gyflawni cynlluniau gwasanaeth a rheoli cofrestrau risgiau gwasanaeth.

**Ydw i wedi?**

- Mynychu neu ddarllen pecynnau dogfennau Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth?
- Adolygu gwybodaeth perfformiad a risg ar gyfer y Cyngor yn rheolaidd?

### 9.2.3. Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (gan gynnwys aelodau lleyg)

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod Etholedig (nid yw'n berthnasol i aelodau lleyg), fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, rwy'n disgwyl:**

- Sicrwydd bod ein prosesau perfformiad a risg yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y Cyngor.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Cymeradwyo Fframwaith Rheoli Perfformiad y cyngor (fel yr amlinellir yn y canllaw hwn), a Fframwaith Rheoli Risg y cyngor (fel yr amlinellir yn ein *Canllaw Rheoli Risg: Rheoli Risg er mwyn Darparu Gwasanaethau Gwell O.N. Tudalen we i'w chreu maes o law*).
- Monitro effeithiolrwydd ein prosesau perfformiad a rheoli risg.
- Nodi materion sy'n ymwneud â pherfformiad a llywodraethu sy'n cyfiawnhau craffu pellach.

**Ydw i wedi?**

- Adolygu gwybodaeth perfformiad a risg ar gyfer y Cyngor yn rheolaidd? Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad a risg a gyflwynir i bwyllgorau craffu a'r Cabinet.
- Mynychu neu ddarllen pecynnau dogfennau Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth?

## 9.3. Aelodau Staff

**Fel aelod o staff rwy'n disgwyl:**

- **Tryloywder a Gonestrwydd**: Rwyf eisiau gwybodaeth glir a chywir am y pethau sy'n effeithio ar fy ngwaith a'r cymunedau rwy'n eu gwasanaethu. Rwy'n gwerthfawrogi cael fy niweddaru a chael mynediad at yr holl fanylion perthnasol i gyflawni fy nyletswyddau'n effeithiol.
- **Parch ac Urddas**: Rwy'n disgwyl cael fy nhrin â pharch ac urddas ym mhob rhyngweithiad. Dylid gwerthfawrogi a chefnogi fy rôl a'm cyfraniadau, gan sicrhau y gallaf wasanaethu cymunedau'n effeithiol.

- **Cymryd Rhan Weithredol**: Rwyf eisiau deall nodau'r cyngor a'r cyfraniad y mae fy ngwaith yn ei wneud tuag atynt. Dylid clywed fy llais hefyd, a dylai fy nghyfraniadau wneud gwahaniaeth sylweddol wrth siapio polisïau a gwasanaethau.
- **Cefnogaeth a Chyfarwyddyd**: Mae angen cefnogaeth a chyfarwyddyd arnaf i lywio cymhlethdodau fy rôl. Bydd offer a systemau defnyddiol gyda gwybodaeth gyfoes yn cefnogi datblygiad, cyfathrebu a monitro ein gwybodaeth perfformiad, gan fy helpu i gyflawni fy nyletswyddau'n effeithiol.
- **Atebolrwydd**: Rwy'n disgwyl i wasanaethau gael eu cynllunio'n dda i gefnogi anghenion y gymuned, gyda'r rhai sy'n gyfrifol yn atebol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Dylai fod mecanweithiau mewn grym i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu faterion sy'n codi, gan sicrhau ein bod yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- **Ymgysylltu yn Weithredol**: Byddaf yn ymgysylltu'n weithredol â phrosesau perfformiad, gan gefnogi cyflawniad y Cynllun Gwasanaeth a rhoi fy mewnbwn. Mae fy nghyfranogiad yn hanfodol ar gyfer llwyddiant ein hymdrechion ar y cyd a lles ein cymuned.
- **Cael y Wybodaeth Ddiweddaraf**: Byddaf yn cadw'n wybodus am y gwasanaethau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar ein cymuned ac yn adolygu fy anghenion dysgu a hyfforddi fy hun yn rhagweithiol i wella perfformiad yn barhaus.
- **Parchu Eraill**: Byddaf yn trin eraill â pharch ac urddas, yn union fel rwy'n disgwyl cael fy nhrin.
- **Rhoi Adborth Adeiladol**: Byddaf yn rhoi adborth adeiladol i helpu i wella gwasanaethau a phrosesau. Gall fy mewnwelediadau arwain at newidiadau cadarnhaol a chanlyniadau gwell i'r gymuned.
- **Cymryd yr Awenau**: Byddaf yn cymryd yr awenau wrth geisio gwybodaeth, gofyn cwestiynau, a chymryd rhan. Bydd fy null rhagweithiol yn cyfrannu at lwyddiant ein nodau cyffredin a gwella gwasanaethau a'n cymuned.

### Sut mae gwneud hyn?

- Gofyn cwestiynau, cyfrannu syniadau a herio'r ffordd rydym ni'n gwneud pethau.
- Codi unrhyw risgiau neu bryderon gyda rheolwyr neu'r undebau llafur.
- Rhoi diweddariadau gonest a hawdd eu deall ar gynnydd y gwaith.

- Bod yn rhan o'r broses cynllunio gwasanaeth a rhoi eich mewnbwn i'r Cynllun Gwasanaeth.
- Bod â'r wybodaeth ddiweddaraf am brosesau perfformiad a rheoli risg y cyngor.

### 9.3.1. Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr Strategol

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel y Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Strategol, rwy'n disgwyl:**

- Staff fod yn rhan o'n prosesau rheoli perfformiad  a deall beth yw eu cyfraniad.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad a risg yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Hyrwyddo diwylliant o reoli perfformiad a risg o fewn y cyngor.
- Monitro Cynllun Corfforaethol a gwybodaeth am berfformiad lefel gwasanaeth.
- Monitro'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a chofrestrau risg gwasanaeth.
- Rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig ynglŷn â materion sy'n berthnasol iddyn nhw.
- Adolygu rheoli perfformiad a risg gyda Phenaethiaid Gwasanaeth fel rhan o gyfarfodydd un-i-un rheolaidd.

**Ydw i wedi?**

- Rhoi mewnbwn i'r gynlluniau gwasanaeth a'r cofrestrau risg?
- Adolygu data perfformiad gwasanaeth a risg gyda Phenaethiaid Gwasanaeth yn rheolaidd?
- Ymgysylltu â'r broses Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth?
- Rhoi mewnbwn i Asesiad Lles y Cyngor, a'r broses Hunanasesu barhaus, a defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau a rheoli risg i wasanaethau?
- Hysbysu'r Tîm Cyfathrebu am straeon newyddion da, neu eu rhybuddio am broblemau perfformiad posibl?

### 9.3.2. Penaethiaid Gwasanaeth

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel Pennaeth Gwasanaeth, rwy'n disgwyl:**

- Cael arweiniad ar reoli risg a pherfformiad gan Gyfarwyddwyr Strategol, Aelodau Cabinet a'r Tîm Perfformiad a Gwella.
- I aelodau Craffu a staff hefyd gyfrannu at ddatblygu a darparu'r gwasanaeth.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Datblygu, cyfathrebu a chyflwyno'r Cynllun Gwasanaeth gyda budd-ddeiliaid allweddol.
- Rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig ynglŷn â materion sy'n berthnasol iddyn nhw.
- Cynnal y Cynllun Gwasanaeth a deall y cyfraniadau y mae'n eu gwneud i'r Cynllun Corfforaethol a strategaethau ehangach eraill.
- Rheoli risgiau i'r gwasanaeth, gyda mewnbwn gan staff, gan uwchgyfeirio risgiau lle bo angen.
- Cynnwys staff yn natblygiad dogfennaeth Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth.
- Sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad a risg yn cael eu gweithredu'n effeithiol, gan hyrwyddo rheoli perfformiad a risg o fewn y cyngor.

**Ydw i wedi?**

- Ymgynghori ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Gwasanaeth, gan gynnwys rheolwyr, staff ac Aelodau Cabinet Arweiniol?
- Ystyried anghenion cwsmeriaid ac ystyried yr holl ddyletswyddau deddfwriaethol perthnasol?
- Ystyried goblygiadau'r cynllun Gwasanaeth a darparu asesiad o unrhyw ofynion ariannol, gwasanaeth cymorth neu'r gweithlu?
- Adolygu trothwyon perfformiad ac amserlenni ar gyfer prosiectau a gweithgareddau?
- Paratoi ar gyfer yr Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth a chynnwys staff wrth baratoi ei ddogfennaeth?
- Adolygu data perfformiad a risg yn rheolaidd gyda fy Aelod(au) Cabinet a'm tîm rheoli?
- Cyfathrebu negeseuon allweddol ar berfformiad i staff, da a drwg?

- Rhoi mewnbwn i Asesiad Lles y Cyngor, a’r broses Hunanasesu barhaus, a defnyddio’r wybodaeth a gasglwyd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau a rheoli risg i wasanaethau?
- Hysbysu'r Tîm Cyfathrebu am straeon newyddion da, neu eu rhybuddio am broblemau perfformiad posibl?

### 9.3.3. Rheolwr Gwasanaeth

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel Rheolwr Gwasanaeth, rwy'n disgwyl:**

- Cyfarwyddyd clir gan y Cyngor etholedig, y Cabinet ac uwch arweinwyr.
- Staff i fod yn rhan o gyflawni'r Cynllun Gwasanaeth, yn ymwybodol o brosesau perfformiad a rheoli risg y cyngor, ac yn deall eu cyfraniad at ddarparu gwasanaethau'n llwyddiannus.

**Rydw i’n gyfrifol am**

- Helpu’r Penaethiaid Gwasanaeth i gyfathrebu gweledigaeth strategol y Cyngor a chynnwys staff mewn datblygu a darparu’r Cynllun Gwasanaeth, gan gynnwys diweddaru aelodau etholedig ar faterion sy’n berthnasol iddynt.
- Sicrhau fod staff yn ymgysylltu ac yn ymrwymo â gweithgarwch o fewn y Cynllun Gwasanaeth.
- Cefnogi’r Pennaeth Gwasanaeth i fonitro Cofrestr Risg y Gwasanaeth, a gweithio ag aelodau o’r tîm.
- Monitro perfformiad y gwasanaeth / tîm, darparu diweddariadau cywir ac amserol, gan ystyried a yw disgwyliadau perfformiad yn briodol.

**Ydw i wedi?**

- Ymgynghori ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol yn ystod datblygu’r Cynllun Gwasanaeth a’r Gofrestr Risg?
- Ymdrin ag unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol newydd yn y Cynllun Gwasanaeth?
- Gwerthuso goblygiadau'r Cynllun Gwasanaeth, gan gynnwys asesiad o unrhyw ofynion ariannol, gwasanaeth cymorth neu weithlu?
- Gosod trothwyon perfformiad ac amserlenni realistig ar gyfer prosiectau a gweithgareddau?

- Ymgysylltu â'r broses Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth a sicrhau bod staff yn ymgysylltu?
- Adolygu data perfformiad a risg yn rheolaidd i lywio gwelliant y gwasanaeth ei hun?
- Cyfathrebu negeseuon allweddol ar berfformiad i staff, da a drwg?
- Rhoi mewnbwn i Asesiad Lles y Cyngor, a'r broses Hunanasesu barhaus, a defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau a rheoli risg i wasanaethau?
- Hysbysu'r Tîm Cyfathrebu am straeon newyddion da, neu eu rhybuddio am broblemau perfformiad posibl?

### 9.3.4. Rheolwyr Busnes / Swyddogion Perfformiad

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel Rheolwr Busnes / Swyddog Perfformiad, rwy'n disgwyl:**

- Cael dealltwriaeth glir o brosesau rheoli perfformiad a risg y cyngor.
- I gynlluniau gwasanaeth a chofrestrau risg gael mewnbwn a her barhaus gan fudd-ddeiliaid, gan gynnwys y Cyfarwyddwr(wyr) Corfforaethol, Aelod(au) Cabinet, staff, a'r cyhoedd.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Cefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth i gwblhau a chyfathrebu Cynllun Gwasanaeth (erbyn 31 Mawrth), a Chofrestr Risg Gwasanaeth, clir a hawdd eu dilyn gan sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu cynnwys a bod staff yn deall eu hymrwymiadau.
- Cefnogi Pennaeth y Gwasanaeth i baratoi dogfennaeth Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth.
- Diweddaru'r Cynllun Gwasanaeth yn barhaus (mae'n ddogfen fyw a dylid ei diweddaru'n dilyn unrhyw weithgaredd newydd yn ystod y flwyddyn).
- Sicrhau bod diweddariadau perfformiad (camau gweithredu a mesurau) a risg cywir a hawdd eu deall wedi'u darparu yn CAMMS-Riskonnect pan fo angen, gan sicrhau bod yr holl sylwadau a ddarperir wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir, gan osgoi acronymau.

**Ydw i wedi?**

- Ymgynghori â'r Tîm Perfformiad a Gwella a'i gynnwys i sicrhau bod cysondeb yn y dull a gymerir?

- Sicrhau fod ystyriaeth i anghenion cwsmeriaid, yn ogystal ag unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol perthnasol?
- Gwerthuso goblygiadau'r cynllun, a chynnwys asesiad o unrhyw ofynion ariannol, gwasanaeth cymorth ac i'r gweithlu?
- Gosod trothwyon perfformiad ac amserlenni realistig ar gyfer prosiectau a gweithgareddau?
- Defnyddio system rheoli perfformiad CAMMS-Riskonnect i helpu i gasglu manylion y Cynllun Gwasanaeth a chynnal y Gofrestr Risg Gwasanaeth?
- Hysbysu'r Tîm Cyfathrebu am straeon newyddion da, neu eu rhybuddio am broblemau perfformiad posibl?

### 9.3.5. Swyddogion Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol, rwy'n disgwyl:**

- Gwasanaethau i gymryd rhan yn y broses o gynllunio gwasanaethau, gyda chynlluniau gwasanaethau wedi'u cwblhau erbyn 31 Mawrth.
- I Gofrestrau Risg Gwasanaeth gael eu cynnal a'u diweddaru.
- Diweddariadau cywir i'w cyflwyno ar gais, gyda sylwadau clir a dealladwy lle bo'n berthnasol.
- Dogfennaeth Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth gywir, wedi'i fformatio'n briodol, ac wedi'i golygu, wedi'i chwblhau o fewn yr amserlenni gan wasanaethau.
- Bod gwasanaethau'n defnyddio'r data y maen nhw'n ei gasglu i lywio eu gwelliannau eu hunain.
- Perfformiad i'w herio gan fudd-ddeiliaid, yn enwedig gan y Cabinet, Craffu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r cyhoedd.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Cynnal cywirdeb y broses o gasglu data, monitro ac adrodd.
- Cefnogi gwasanaethau yn eu cynllunio gwasanaethau a rheoli risg, gan sicrhau cysondeb dull, gan roi sylw dyledus i ystyriaethau deddfwriaethol allweddol fel y Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, ac ymrwymiadau eraill y cyngor a phartneriaeth.

- Cynhyrchu adroddiadau perfformiad cywir yn ôl gofynion uwch arweinwyr, y Cyngor,
  Cabinet, Pwyllgor Craffu a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Ydw i wedi?**

- Cefnogi gwasanaethau i aros ar y trywydd iawn i gyrraedd dyddiad cau'r Cynllun Gwasanaeth (31 Mawrth)?
- Monitro diweddariadau perfformiad a risg gan wasanaethau, gan gynhyrchu adroddiadau perfformiad fel bo angen?
- Cefnogi gwasanaethau i baratoi eu dogfennaeth ar gyfer yr Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth?
- Cefnogi trefniadau Fframwaith llywodraethu a rheoli perfformiad y Cynllun Corfforaethol?
- Hysbysu'r Tîm Cyfathrebu am straeon newyddion da, neu eu rhybuddio am broblemau perfformiad posibl?

# 10.0. Geirfa

Isod mae rhestr o eiriau allweddol yn y canllaw hwn i helpu darllenwyr i ddeall termau pwysig.

## 10.1. Rheoli Perfformiad

**CAMMS-Riskonnect (System Rheoli Perfformiad)** – Mae'r cyngor yn defnyddio system rheoli cwmwl o'r enw CAMMS-Riskonnect i fonitro perfformiad gwasanaeth, prosiectau, a gwybodaeth rheoli risg.

**Sgwrs Conwy** – Dyma ein dull o gefnogi perfformiad a lles yn barhaus. Disodlodd adolygiadau datblygu perfformiad blynyddol gyda gwiriadau rheolaidd, ystyrlon rhwng rheolwyr a gweithwyr i feithrin ymddiriedaeth, datblygiad personol, lles, a darparu adborth amser real.

**Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol (FfRhP)** – Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol (a elwir hefyd yn Ddogfen Dechnegol) yn nodi dangosyddion allweddol, mesurau perfformiad a gweithgaredd sy'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys trothwyon perfformiad a ffynonellau data.

**Gweithgaredd Gwella** - Mae Gweithgaredd Gwella yn rhaglenni, prosiectau neu gamau allweddol a nodwyd er mwyn cefnogi'r canlyniad. Mae'n cynnwys camau sy'n codi o Archwilio Mewnol, Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth, yr arolwg staff neu gofrestrau risg. Gellir datblygu gweithgareddau gwella hefyd trwy Adroddiadau Hunanasesu Perfformiad y cyngor.

**Dangosydd** - Mae dangosydd yn fesur na allwn ei reoli'n llawn ac mae fel arfer yn cyfleu 'effaith' yr hyn a wnawn. Mae dangosyddion yn dweud wrthym pa mor effeithiol yr ydym yn cyflawni'r Canlyniad a ddymunir. Dylid defnyddio'r templed yn atodiad 3 i'r llyfryn hwn i helpu i ddiffinio dangosyddion.

**Mesur** - Mae Mesur Perfformiad yn llwyr o dan reolaeth y cyngor ac fel arfer mae'n dal ein 'hymdrech' – h.y. allbynnau ein darpariaeth. Dylai mesurau ddylanwadu ar berfformiad dangosyddion (er y bydd y graddau'n amrywio yn dibynnu ar y gweithgaredd). Gellir defnyddio'r templed yn atodiad 3 i'r llyfryn hwn i helpu i ddiffinio mesurau.

**Canlyniad** - Rydym yn cynllunio ein gwasanaethau gan ddefnyddio dull o'r enw Canlyniadau'n Cyfrif. Mae Canlyniadau'n Cyfrif yn ein helpu i osod nodau clir, creu

cynlluniau gweithredu, a mesur ein cynnydd.  Mae hyn yn ein helpu i aros yn atebol a dangos gwelliannau gwirioneddol, mesuradwy. Pan fyddwn yn siarad am "Ganlyniad" rydym yn golygu budd neu newid cadarnhaol a brofir gan rywun neu gymuned o bobl. Drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau, gallwn ddeall yn well a yw ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

**Rheoli Perfformiad** - Rheoli Perfformiad yw'r strwythur a'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn a ddywedom y byddem yn ei gyflawni, gan annog cyfranogiad gweithredol a her gan bob rhan o'r cyngor, ein haelodau etholedig, a thrigolion. Cyfeirir at y canllaw hwn hefyd fel Fframwaith Rheoli Perfformiad y cyngor.

**Rhaglen Adolygu Perfformiad Gwasanaeth** - Mae ein Hadolygiadau Perfformiad Gwasanaeth yn rhaglen dreigl sy'n edrych ar berfformiad cyffredinol gwasanaeth.  Yn gyffredinol, cynhelir un y mis, ac mae'r panel yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am berfformiad.  Hefyd yn bresennol mae'r Arweinydd ac Aelod(au) perthnasol o'r Cabinet, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, Pennaeth Pobl a Pherfformiad, Pennaeth Archwilio a Chaffael, Rheolwr Perfformiad ac Ymgysylltu Strategol, a Chyfrifydd y Gwasanaeth.  Mae croeso i staff ehangach a chynghorwyr fynychu hefyd.  Bydd y ddogfennaeth yn cynnwys adroddiad ar Gynllun Gwasanaeth a Chofrestr Risg y Gwasanaeth, a dadansoddiad a baratowyd gan y gwasanaeth i ddangos eu cryfderau, eu gwendidau, eu cyfleoedd a'u bygythiadau (SWOT).

**Cynllunio Gwasanaeth** - Mae Cynllunio Gwasanaeth yn weithgarwch sydd fel arfer yn digwydd rhwng Ionawr a Mawrth er mwyn cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae Swyddogion Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn gweithio gyda Swyddogion Arweiniol Perfformiad, Rheolwyr Gwasanaethau a Phenaethiaid Gwasanaethau i ddatblygu'r rhain yn CAMMS-Riskonnect (ein system rheoli perfformiad) erbyn 31 Mawrth, er eu bod yn ddogfennau byw y dylid eu cadw'n gyfredol drwy gydol y flwyddyn.

**Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid** – Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod disgwyliad arnom i ymgynghori'n flynyddol â rhestr ragnodedig o fudd-ddeiliaid allweddol ynghylch sut rydym yn perfformio yn erbyn ein swyddogaethau. Rydym yn gwneud hyn drwy ein Harolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a rhaid i fudd-ddeiliaid gynnwys trigolion, staff, busnesau, cynghorau tref a chymuned, partneriaid, ac

undebau llafur.  Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad.

**Trothwyon** - Mae'r rhain yn ein helpu i ddeall cyd-destun ein perfformiad a chefnogi sgyrsiau gwella.  Rydym yn defnyddio dull pedwar lliw – coch, oren, melyn, gwyrdd (COMG) – i fesur ein mesurau perfformiad, a fydd yn cael eu pennu gan y targedau a'r goddefiannau a osodwn.  Dylai ein targed (ar gyfer Gwyrdd: Rhagorol) gynrychioli'n rhesymol ein huchelgais ar gyfer y mesur, gan fod yn realistig o fewn y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo, e.e. cyllideb, capasiti, ac ati. Mae ein trothwy goddefiant (ar gyfer Coch: Perfformiad Anfoddhaol) yn cynrychioli'r pwynt lle mae angen ymyrraeth sylweddol i wella ein perfformiad. Bydd canol ffordd rhwng y gwerthoedd hyn yn pennu'r ffin Melyn: Ar y Trywydd Iawn, ac Oren: O fewn y Goddefiant.

**Fframwaith Cynllunio'r Gweithlu** – Mae hwn yn nodi ein dull o gynllunio'r gweithlu gyda'r nod o alinio galluoedd ein gweithlu â blaenoriaethau'r gwasanaeth, gan ein galluogi i ddenu, cefnogi, datblygu a chadw gweithlu gwydn, amrywiol ac addasol drwy gynllunio integredig, gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, a dysgu a gwella'n barhaus.

## 10.2. Cynlluniau

**Cynllun Corfforaethol** - Y Cynllun Corfforaethol yw'r cynllun strategol cyffredinol ar gyfer y cyngor ac mae'n ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.  Mae'n nodi ein hamcanion lles (nodau) ar gyfer tymor y Cyngor etholedig.  Mae'n eistedd uwchben y cynlluniau gwasanaeth ac mae'n cyd-fynd â nhw.

**Cynllun Conwy Gynhwysol** – Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (a Rheoliadau Cymru 2011) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gael cynllun mewn grym i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.  Mae Cynllun Conwy Gynhwysol (2024-28) Conwy yn adeiladu ar y cynnydd a wnaethom drwy gynlluniau cydraddoldeb blaenorol ond mae'n canolbwyntio ar bobl a'u profiad bywyd, yn hytrach na'n rhwymedigaeth i gydymffurfio â deddfwriaeth. Mae'r cynllun yn amlinellu'r blaenoriaethau allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros 4 blynedd y cynllun ac yn ymgorffori camau gweithredu o Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru a  Chynllun Gweithredu LHDTC+.

**Cynllun Ariannol Tymor Canolig** - Mae'n bwysig i'r cyngor edrych ar ei gyllid y tu hwnt i un flwyddyn yn unig.  Mae Conwy yn gwneud hyn drwy ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sydd fel arfer yn edrych ar y tair blynedd nesaf ac yn amcangyfrif beth allai

ddigwydd i'r cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dilyn yn agos y cynlluniau a gyflwynir gan wasanaethau yn ystod y broses gynllunio gwasanaeth a busnes.

**Cynllun Gwasanaeth** - Y Cynllun Gwasanaeth yw sail strwythur rheoli perfformiad y cyngor.  Mae’n cynnwys pob dangosydd allweddol a mesurau perfformiad a gweithgarwch gwella sy’n ymwneud â’r canlyniadau allweddol y mae gwasanaethau yn eu hystyried yn bwysig. Mae cynlluniau gwasanaeth yn bwydo Cynllun Corfforaethol y cyngor ac yn cael eu llofnodi gan yr Aelod(au) Cabinet perthnasol erbyn 31 Mawrth.

**Cynllun Lles** - Y Cynllun Lles yw'r cynllun strategol a gytunwyd rhwng partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'n ceisio cyflawni canlyniadau allweddol a rennir ar draws gwahanol sefydliadau ar gyfer y ddwy ardal.

## 10.3. Adroddiadau

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol (gan gynnwys y Cod Llywodraethu Lleol, a'r Fframwaith Llywodraethu)** – Bob blwyddyn rhaid i ni adolygu trefniadau llywodraethu'r cyngor, sy'n cynnwys gwirio ein rheolaethau mewnol – h.y. y systemau a'r prosesau sy'n sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn briodol, bod risgiau'n cael eu rheoli, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol.  Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dilyn canllawiau a nodir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Caiff ei adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet, a'i gyhoeddi yn www.conwy.gov.uk/perfformiad. Mae camau gweithredu wedi'u cynnwys yn ein Hunanasesiad Perfformiad.

**Adroddiad Asesiad o Effaith** – Mae gan Gonwy offeryn Asesu Effaith Integredig a sgrinio.  Mae Asesiadau o Effaith Integredig yn werthusiad o effaith bosibl penderfyniadau a wneir gan y cyngor, sy'n cynnwys newid neu ddatblygu prosiectau, polisïau, canllawiau, cynlluniau a strategaethau newydd, ynghyd â newidiadau i ddarparu gwasanaethau.

**Asesiad Perfformiad Panel** - Mae’n rhaid i banel dan arweiniad cymheiriaid gynnal asesiad o berfformiad y Cyngor a llunio adroddiad o’u darganfyddiadau unwaith bob cylch etholiadol.  Rhaid i'r cyngor gynhyrchu ymateb, gyda mewnbwn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sy'n amlinellu'r camau y bydd y cyngor yn eu cymryd er mwyn

gwella ei allu i fodloni gofynion perfformiad. Cyflwynir ein trefniadau Asesu Perfformiad Panel mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

**Adroddiad Hunanasesu Perfformiad** – Mae ein Hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad yn gyfrwng pwysig ar gyfer cyflwyno ein holl wybodaeth allweddol am berfformiad mewn un lle, gan dynnu ynghyd gorff enfawr o dystiolaeth o ffynonellau mewnol ac allanol (gweler atodiad 1), gan gynnwys ein rheoleiddwyr a'n cwsmeriaid. Dylent ddangos a gyrru cynnydd y cyngor yn ei flaen yn erbyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r saith maes llywodraethu. Fe'u cynhyrchir bob chwe mis, gan gwmpasu Ebrill i Fedi a Hydref i Fawrth. Ynghyd â'n Crynodeb Gweithredol blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r adroddiadau hyn yn ffurfio ein hymateb i'r gofyniad am broses barhaus o hunanasesu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a gefnogir hefyd gan ein rhaglen Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth. Dylid eu hystyried fel dogfennau byw sy'n ein helpu i adolygu ein Cynllun Corfforaethol a'i weithgaredd, mesurau, targedau a goddefiannau ategol yn barhaus. Cyflwynir adroddiadau i'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol, y Cabinet, ac unwaith y flwyddyn i'r Cyngor.

**Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gwasanaeth** – Cynhyrchir Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gwasanaeth gan ein System Rheoli Perfformiad cyn Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth ac mae'n archwilio perfformiad yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth.

## 10.4. Rheoli Risg (gweler hefyd ein *Canllaw Rheoli Risg*)

**Risgiau Corfforaethol** - Mae’r rhain yn risgiau sylweddol a allai effeithio ar ein gallu i fodloni amcanion corfforaethol a gwasanaeth hirdymor, a’n gallu i gyflawni dyletswyddau statudol. Caiff Risgiau Corfforaethol eu monitro gan yr Uwch Dîm Arwain a'r Cabinet yn rheolaidd (o leiaf bob chwe mis). Fe'u rheolir drwy CAMMS-Riskonnect.

**Materion** - Mae mater yn cyfeirio at ganlyniadau digwyddiad sydd eisoes wedi digwydd ac mae camau lliniaru rheoli ar y gweill neu wedi'u cynllunio.

**Risg** - Mae risg yn ddigwyddiad a fyddai, pe bai'n digwydd, yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau'n llwyddiannus. Mae risg yn fesur a ddefnyddir i ddisgrifio’r ansicrwydd mewn perthynas â digwyddiad a’i effaith posibl.

**Parodrwydd i Dderbyn Risg** - Diffinnir hyn fel lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef neu ei derbyn wrth gyflawni ein hamcanion strategol hirdymor. Er enghraifft, gall y cyngor

benderfynu na fydd yn goddef unrhyw risg i'w gyllid ond ei fod yn barod i fod yn fwy agored i risg i'w enw da.

**Risgiau Gwasanaeth** - Mae'r rhain yn benodol i feysydd gwasanaeth unigol sy'n bygwth ein gweithrediadau ac a allai gael effaith ar ddarparu gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gallai'r heriau hyn gynnwys iechyd a diogelwch, diogelwch gwybodaeth, parhad gwasanaeth, partneriaethau a ffactorau gweithredol eraill. Mae risgiau gwasanaeth yn cael eu cofnodi ar gofrestrau risg gwasanaethau. Cânt eu rheoli, eu monitro, a'u huwchgyfeirio fel rhan o'r broses adolygiad perfformiad gwasanaeth. Fel Risgiau Corfforaethol, cânt eu rheoli trwy CAMMS-Riskonnect.

## 10.5. Deddfwriaeth

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** – Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor adrodd ar ei swyddogaethau trwy broses Hunanasesu flynyddol, yn ogystal â thrwy asesiad dan arweiniad cymheiriaid y mae'n rhaid iddo ddigwydd unwaith ym mhob cylch etholiadol. Am ragor o wybodaeth am ofynion perfformiad y Ddeddf hon, gweler y Canllawiau Statudol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud inni feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'n gilydd, edrych i atal problemau, a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig gyda phartneriaid. Rhaid deall pob penderfyniad yng nghyd-destun yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

**Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus** – O dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 rhaid inni ymgorffori egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn ein prosesau cynllunio strategol ac adrodd trwy ddatblygu ein hamcanion mewn ymgynghoriad ag undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff. Yn ogystal, rhaid inni gynhyrchu adroddiad perfformiad blynyddol sy'n dangos sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol.

## 10.6. Rheoleiddwyr

**Archwilio Cymru** – Mae Archwilio Cymru yn cynnal gwaith maes i adolygu cyllid a pherfformiad cyrff cyhoeddus a chynhyrchu Crynodeb Archwilio Blynyddol o'u canfyddiadau cyffredinol. I weld adroddiadau diweddar, ewch i wefan Archwilio Cymru.

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** – Dyma brif reoleiddiwr gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.  Gellir dod o hyd i adroddiadau diweddar sy'n adolygu gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion awdurdodau lleol ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Estyn** - Dyma'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer Cymru, ac mae'n cynhyrchu adroddiadau arolygu yn rheolaidd y gellir eu gweld trwy fynd i wefan Estyn.

# Atodiad 1 - Fframwaith Hunanasesu Perfformiad

**The Performance Self-Assessment structure must cover the seven governance areas:**

- Corporate Planning
- Financial Planning
- Risk Management
- Performance Management
- Workforce Planning (people)
- Procurement
- Assets

In addition, the Self-Assessment must include actions for improvement.



## Atodiad 2 – Templed Cynllunio Gwasanaeth

Mae'r ddogfen isod yn dempled syml i gefnogi cynhyrchu cynlluniau gwasanaeth.

# [Nodwch Deitl y Gwasanaeth] – Cynllun Gwasanaeth 20[XX] i 20[XX]

## 1. Cyd-destun

### 1.1 Datganiad Lles

[Mae hwn yn gyfle i Bennaeth Gwasanaeth fynegi ei weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a sut y bydd ei ganlyniadau'n cefnogi lles pobl a chymunedau]

### 1.2 Meysydd Cyfrifoldeb

Y timau a'r prif swyddogaethau o fewn y maes gwasanaeth hwn yw:

- [Rhestrwch yr holl dimau a / neu brif swyddogaethau]

## 2. Goblygiadau'r Cynllun

### 2.1 Cyllidebau, Arbedion ac Asedau

[Beth yw goblygiadau'r Cynllun Gwasanaeth ar gyllidebau gwasanaeth, arbedion y cytunwyd arnynt, ac asedau?]

### 2.2 Rhyngddibyniaethau â meysydd gwasanaeth eraill

[A oes angen unrhyw gefnogaeth gan wasanaethau eraill i gyflawni agweddau ar y Cynllun Gwasanaeth – e.e. TGCh, Cyfreithiol, AD, Caffael? A oes gwaith ymgynghori neu adnewyddu / creu contract i ddod i mewn?]

### 2.3 Anghenion y Gweithlu

[Ystyriwch anghenion dysgu a datblygu'r gwasanaeth; unrhyw fylchau sgiliau y mae angen cymorth arnoch gyda nhw; neu gynllunio olyniaeth, ac ati.]

## Canlyniad 1: Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn

Mae'r canlyniad hwn yn eistedd o fewn pob Cynllun Gwasanaeth ac yn ceisio cefnogi gwydnwch cyffredinol y cyngor. Mae'n cwmpasu materion corfforaethol allweddol megis safonau cwsmeriaid, rheoli ariannol a rheoli'r gweithlu, camau gwella a gwaith trawsnewid.

### 1. Dangosyddion (Effaith)

| Teitl | Amlder | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|
| [Teitl y dangosydd] – **Wedi'i feincnodi'n lleol neu'n genedlaethol**<br>**Targed XX; Trothwy Goddefiant: XX** | [Bob Mis, Bob Chwarter, Bob Chwe Mis, Bob Blwyddyn, Bob Dwy Flynedd] | [Enw] |

### 2. Mesurau Perfformiad (Ymdrech)

| Teitl | Amlder | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|
| [Teitl y mesur perfformiad] – **Wedi'i feincnodi'n lleol neu'n genedlaethol**<br>**Targed XX; Trothwy Goddefiant: XX** | [Bob Mis, Bob Chwarter, Bob Chwe Mis, Bob Blwyddyn, Bob Dwy Flynedd] | [Enw] |

### 3. Gweithgareddau

| Teitl | Swyddog Arweiniol |
|---|---|
| [Teitl y gweithgaredd]<br>**Dyddiadau cychwyn a gorffen disgwyliedig: XX/XX/XX – XX/XX/XX** | [Enw] |

## Atodiad 3 – Templed Dangosydd / Mesur Perfformiad

Mae'r ddogfen isod yn amlinellu rhywfaint o'r wybodaeth allweddol yr ydym yn chwilio amdani wrth ddatblygu dangosyddion a mesurau newydd.  Mae cwblhau hwn hefyd yn brawf da o hyfywedd mesur arfaethedig.

**Teitl:** [Rhowch deitl y dangosydd / mesur]

**Disgrifiad:** [Rhowch ddisgrifiad byr o'r hyn y mae'r dangosydd / mesur hwn yn ei fonitro a beth y mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio ar ei gyfer]

**Cwmpas a Diffiniad:** [Rhowch ddiffiniad llawn i esbonio cwmpas llawn y dangosydd / mesur hwn – h.y. beth mae'n ei gynnwys a beth mae'n ei eithrio]

**Ffynhonnell:** [O ble mae'r data'n dod?  Os yw hwn yn ddangosydd / mesur cyfrifo, nodwch o ble mae pob elfen yn dod.  Nodwch hefyd a oes angen cynhyrchu'r data o fewn cyfnod penodol o amser neu ar ddyddiadau penodol o'r systemau ffynhonnell]

**Cyfrifiadau:** [Sut mae'r dangosydd / mesur hwn yn cael ei gyfrifo?  Nodwch beth sydd wedi'i gynnwys / wedi'i eithrio o'r cyfrifiad]

**Math o Ddata:** [E.e. Canran / Ariannol / Nifer / Dyddiau, ac ati]

**Dull Agregu:** [Sut fydd y wybodaeth yn cael ei chofnodi yn CAMMS-Riskonnect? **Normal** (bydd adroddiad yn dangos y cyfnod adrodd cau diwethaf o fewn yr amserlen a ddewiswyd); **Cronnus** (bydd CAMMS-Riskonnect yn crynhoi gwerthoedd yn seiliedig ar yr amserlenni a ddewiswyd); **Cyfartaledd** (bydd adroddiad yn arddangos data fel cyfartaledd o'r cyfnod dadansoddi)]

**Math o Fesur / Dangosydd: Normal** (galluogi gosod targedau a goddefiannau); **Tuedd** (dim targedau wedi'u gosod; bydd yn adlewyrchu newidiadau dros amser); **Cyfrifwyd** (gydag is-ddangosyddion perfformiad).

**Amlder:** [Bob wythnos, bob mis, bob chwarter, dwy waith y flwyddyn, un waith y flwyddyn?]

**Meincnodi:** [A ellir meincnodi'r dangosydd / mesur hwn?]

**Dilysu:** [Sut fydd y dangosydd / mesur yn cael ei ddilysu / ei wirio er mwyn cywirdeb?]

**Dyddiad:** [Rhowch ddyddiad] **Dyddiad Adolygu Nesaf:** [Rhowch ddyddiad]

# Atodiad 4 - Egwyddorion ar gyfer Ysgrifennu Adroddiadau Perfformiad

## 1. Adnabod Eich Cynulleidfa a'i Strwythuro'n Gall

Gwnewch yn siŵr eich bod yn teilwra lefel y manylder yn yr adroddiad yn ôl yr angen i gyfarwyddyd y gynulleidfa â'r pwnc. Er mwyn y cyhoedd a'n pwyllgorau, ceisiwch osgoi jargon ac acronymau. Defnyddiwch iaith glir a strwythurwch adroddiadau i ganiatáu llywio cyflym i fewnwelediadau allweddol. Cynhwyswch grynodeb gweithredol sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol, yna dilynwch hyn gyda'r dadansoddiad manwl. Byddwch yn glir ac yn gryno ynghylch pam mae'r adroddiad yn cael ei ysgrifennu, beth yw eich amcanion, a chynnwys eich dangosyddion a'ch mesurau allweddol mewn ffordd y gellir ei deall yn hawdd ochr yn ochr â naratif / dadansoddiad esboniadol o'r data. I fynd â phethau i'r lefel nesaf, dylech gynnwys argymhellion yn seiliedig ar y mewnwelediadau a wnaed.

## 2. Canolbwyntiwch ar Ganlyniadau, Nid Gweithgaredd ac Allbynnau yn Unig

Dylai adrodd perfformiad effeithiol fynd y tu hwnt i weithgaredd a chyfrif. Darparwch naratif sy'n gwerthuso a gyflawnwyd y canlyniadau a fwriadwyd ac esboniwch arwyddocâd y canlyniadau. Defnyddiwch iaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a pheidiwch â darparu naratif yn unig am yr hyn a wnaed. Cynhwyswch rai enghreifftiau astudiaethau achos lle mae'n helpu i atgyfnerthu'r neges.

## 3. Defnyddiwch Feini Prawf Gwerthuso Clir

Ceisiwch gymhwyso fframwaith cyson ar gyfer gwerthuso perfformiad. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth pobl o'r dadansoddiad ac yn caniatáu gwneud cymhariaeth yn decach. Mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn defnyddio system bedair haen (Coch, Oren, Melyn, Gwyrdd) ac yn pwysleisio'r angen i osod targedau a throthwyon ystyrlon. Cynhwyswch fesurau meintiol a mewnwelediad ansoddol (er enghraifft, adborth defnyddwyr a gwersi a ddysgwyd) i gefnogi gwerthuso canlyniadau yn ystyrlon.

## 4. Cyd-destunoli Perfformiad

Eglurwch ffactorau allanol a allai fod wedi dylanwadu ar berfformiad, megis newidiadau polisi, cyfyngiadau adnoddau, neu deimlad y cyhoedd.  Mae hyn yn helpu budd-ddeiliaid i ddehongli canlyniadau'n deg.  Er enghraifft, defnyddiwyd dadansoddiad teimlad y cyfryngau i asesu effaith enw da, gyda rhybuddion ynghylch anwadalrwydd oherwydd materion cyhoeddus.

## 5. Integreiddio Ffynonellau Gwybodaeth Ehangach

Cysylltwch adrodd ar berfformiad â llywodraethiant ehangach y cyngor lle mae'n ddefnyddiol gwneud hynny.  Er enghraifft, mae ein Hadroddiad Hunanasesu Perfformiad yn tynnu ar wybodaeth fewnol ac allanol o adrodd ehangach sy'n digwydd.  Mae hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i dryloywder, ymgysylltu â budd-ddeiliaid, a gwelliant parhaus, a ddylai gael ei adlewyrchu yn eich adroddiadau.

## 6. Byddwch yn Dryloyw Ynghylch Ansawdd Gwybodaeth

Byddwch yn onest ac yn gytbwys, gan gydnabod bylchau, heriau a chyfyngiadau.  Os yw gwybodaeth ar gyfer mesurau neu weithgaredd penodol yn anghyflawn, nodwch nhw'n glir ac esboniwch sut y byddant yn cael eu trin.  Mae hyn yn meithrin ymddiriedaeth ac yn cefnogi gwelliant parhaus.

## 7. Hygyrchedd

Byddwch yn ystyriol o safonau hygyrchedd wrth gynhyrchu eich adroddiadau.  Os ydych chi'n cynnwys unrhyw siartiau neu dablau, cofiwch gynnwys testun amgen clir a defnyddio lliwiau yn unig sydd wedi'u gwirio fel rhai derbyniol i'r rhai sydd â nam ar eu golwg (cysylltwch â'r Tîm Perfformiad a Gwella am gyngor os ydych chi'n ansicr).

## 8. Dogfennau Gwersi a Ddysgwyd

Ceisiwch gynnwys adran ar yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn na weithiodd.  Mae hyn yn cefnogi dysgu sefydliadol ac yn llywio cynllunio yn y dyfodol.  Mae'n bwysig ein bod ni fel sefydliad yn arfer casglu adborth a gwersi a ddysgwyd.

## 9. Alinio â Nodau Strategol

Sicrhewch fod mesurau perfformiad yn cysylltu'n ôl â'r Cynllun Corfforaethol ac amcanion y gwasanaeth.  Mae'r Canllaw i Reoli Perfformiad yn amlinellu sut y dylai cynlluniau gwasanaeth ac amcanion unigol raeadru o nodau strategol.

## 10. Cyhoeddi

Nid oes unrhyw fantais mewn ysgrifennu adroddiadau sydd wedyn yn cael eu claddu'n ddwfn o fewn gwefan.  Gwnewch yn siŵr bod eich tudalennau gwe yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn hawdd eu llywio, a chadwch adroddiadau blaenorol os yw'n ddefnyddiol i'r gynulleidfa arsylwi tueddiadau.